



National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:

e-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

Pob Parti â Buddiant a Pharti Statudol a
wahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 20 Chwefror 2023

Annwyl Syr / Fadam

Deddf Cynllunio 2008 – Adran 88 ac 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheolau 4, 6 a 9

Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

Penodi'r Awdurdod Archwilio a Gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Ar ôl cael fy mhenodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel aelod arweiniol yr Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal Archwiliad o'r cais uchod, rwy'n ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hunan ac aelod arall yr Awdurdod Archwilio. Fy enw i yw Christopher Butler ac aelod arall yr Awdurdod Archwilio yw Matthew Shrigley. Mae copi o'r hysbysiad penodi i'w weld yn y [tab Dogfennau](#) ar [dudalen we'r prosiect](#) ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol¹.

Hoffem ddiolch i'r rhai ohonoch a gyflwynodd Sylwadau Perthnasol. Mae'r sylwadau hyn wedi ein helpu wrth i ni ystyried sut byddwn yn archwilio'r cais hwn.

Gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Fel rhywun sy'n derbyn y llythyr hwn, fe'ch gwahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol i drafod y **weithdrefn** ar gyfer yr Archwiliad o'r cais uchod.

¹ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/HyNet-Carbon-Dioxide-Pipeline/>



Dyddiad	Amser dechrau	Manylion ar gyfer ymuno
Dydd Llun 20 Mawrth 2023	Cynhadledd Trefniadau: 9:30am Cyfarfod Rhagarweiniol yn dechrau am: 10.00am	Caiff y Cyfarfod Rhagarweiniol hwn ei gynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd cyfarwyddiadau llawn am sut i ymuno â'r digwyddiad ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw.
<p>PWYSIG: Dylai'r Cyfarfod Rhagarweiniol fod wedi'i gwblhau cyn 1:00pm ddydd Llun 20 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae cyfnod wrth gefn wedi'i drefnu am 2:00pm y diwrnod hwnnw i ganiatáu i'r cyfarfod gael ei aildechrau mewn amgylchiadau eithriadol e.e. rhag ofn i dechnoleg fethu. Fel arfer, ni fydd angen y cyfnod wrth gefn a bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan yr Awdurdod Archwilio ar ddiwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn cael ei nodi ar dudalen we'r prosiect wedi hynny.</p>		

Rhaid i chi gofrestru erbyn dydd lau 9 Mawrth 2023 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a rhoi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).

Os hoffech wylïo'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn unig, nid oes angen i chi gofrestru gan y byddwch yn gallu gwylïo ffrwd fyw o'r digwyddiad. Bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) ychydig cyn i'r digwyddiad ddechrau. Byddwch yn gallu gwylïo recordiad o'r digwyddiad hefyd, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) yn fuan ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben.

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw galluogi rhoi barnau i ni ynghylch sut y dylid archwilio'r cais. Felly, bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyfyngu ar gwmpas y Cyfarfod Rhagarweiniol i ystyried **sut caiff y cais ei archwilio**. Gweler **Atodiad B** i'r llythyr hwn a [Nodyn Cynqor 8.3 - Dylanwadu ar sut caiff y cais ei archwilio: y Cyfarfod Rhagarweiniol](#) yr Arolygiaeth Gynllunio am fwy o wybodaeth.

Nid yw'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn gyfle i chi roi eich barn ar yr hyn rydych chi'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cais. Bydd rhinweddau neu anfanteision y cais ond yn cael eu hystyried ar ôl i'r Archwiliad ddechrau, sydd ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben. Caiff yr holl faterion perthnasol a phwysig eu hystyried wrth i ni wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr achos hwn.

Mae'r agenda ar gyfer y cyfarfod yn **Atodiad A** i'r llythyr hwn. Mae hyn wedi'i bennu ar ôl ein Hasesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion, sy'n deillio o ddarllen dogfennau'r



cais a'r Sylwadau Perthnasol a gafwyd. Mae'r Asesiad Cychwynol o'r Prif Faterion wedi'i amlinellu yn **Atodiad C** i'r llythyr hwn.

Sylwadau ysgrifenedig ynghylch sut y dylid archwilio'r cais

Mae Deddf Cynllunio 2008 yn pennu proses ysgrifenedig yn bennaf ar gyfer Archwiliadau o geisiadau ar gyfer Gorchmynion Caniatâd Datblygu ac **mae sylwadau a wneir yn ysgrifenedig o'r un pwys â sylwadau llafar a roddir ar bob cam o'r broses.**

Rydym yn gofyn nawr am gyflwyniadau ysgrifenedig gan dderbynyddion y llythyr hwn ynghylch sut y dylid archwilio'r cais. Hoffem glywed gennych yn benodol os:

- ydych o'r farn bod angen gwneud newidiadau i Amserlen Ddrafft yr Archwiliad a amlinellir yn **Atodiad D** i'r llythyr hwn; a/neu
- hoffech wneud sylwadau ar y trefniadau ar gyfer gwrandawiaadau'r Archwiliad yn y dyfodol, gan gynnwys defnyddio dulliau rhithwir.

Fe'ch gwahoddir i wneud cyflwyniad ysgrifenedig ynghylch sut y dylid archwilio'r cais erbyn **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A**, sef dydd lau, 9 Mawrth 2023 (gweler **Atodiad D** i'r llythyr hwn).

Rydym yn gofyn i bob cyflwyniad gael ei wneud ar neu cyn **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A**. Rhaid i bob cyflwyniad tebyg fod mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylai crynodeb gyd-fynd ag unrhyw gyflwyniad sy'n fwy na 1500 gair; ni ddylai'r crynodeb hwnnw fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Os byddwch chi'n cyflwyno eich sylwadau drwy'r e-bost, dylech roi teitl y dyddiad cau perthnasol yn y 'llynell pwnc', yn unol ag Amserlen yr Archwilio – bydd hyn yn helpu Tîm yr Achos i ddeall beth mae'ch cyflwyniad yn ymwneud ag ef. Os ydych o'r farn nad yw eich cyflwyniad yn cyd-fynd â disgrifiad unrhyw un o benawdau'r dyddiadau cau, rhowch 'Arall' yn llynell pwnc eich neges e-bost. Os cewch unrhyw drafferth wrth gyflwyno dogfen erbyn dyddiad cau, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn, a byddant yn gallu eich helpu.

Ceisiadau i gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol

Sylwer, **nid yw'n ofynnol i chi fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol na gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig iddo i gymryd rhan yn yr Archwiliad.** Os ydych yn Barti â Buddiant, gallwch wneud Sylwadau Ysgrifenedig a rhoi sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig gan Bartion eraill â Buddiant yn ystod yr Archwiliad. Byddwch yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw wrandawiaadau sy'n cael eu trefnu hefyd.

Os hoffech gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, mae angen i chi roi gwybod i'r Awdurdod Archwilio yn ysgrifenedig ar neu cyn **dydd lau 9 Mawrth 2023** (gweler **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A**).



Rhaid i unrhyw gais i gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- eich enw a'ch rhif cyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu'ch neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio);
- eich cyfeiriad e-bost (os oes un ar gael) a'ch rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/sefydliad rydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol); a'r
- eitem ar yr agenda yr hoffech siarad amdani a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud.

Cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Fformat Digwyddiadau'r Archwiliad – Y Cyfarfod Rhagarweiniol a Gwrandawiadau

Bydd yr Archwiliad o'r cais yn broses ysgrifenedig, yn bennaf (gweler [Nodyn Cyngor 8.4: Yr Archwiliad](#)), wedi'i hategu gan amryw fathau o wrandawiadau, yn ôl yr angen (gweler [Nodyn Cyngor 8.5: Gwrandawiadau ac arolygiadau safle](#) a [Nodyn Cyngor 8.6: Digwyddiadau archwilio rhithwir](#)).

Mae'r Awdurdod Archwilio yn disgwyl y bydd digwyddiadau cyfunol (yn rhannol wyneb-yn-wyneb ac yn rhannol rithwir) a digwyddiadau cwbl rithwir yn ffurfio rhan o sut byddwn yn archwilio'r cais hwn am Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn hyblyg ac yn cadarnhau fformat unrhyw wrandawiadau pan fyddwn yn rhoi hysbysiad ffurfiol o bob gwrandawriad o leiaf 21 niwrnod cyn ei gynnal.

Rhith-gyfarfod Rhagarweiniol

Rydym yn rhoi hysbysiad ffurfiol y bydd y **Cyfarfod Rhagarweiniol yn ddigwyddiad rhithwir**. Gallai unrhyw Wrandawriad(au) dilynol, os yw'n ofynnol, gael ei gynnal / eu cynnal naill ai'n rhithwir neu mewn fformat cyfunol, a rhoddir hysbysiad ar wahân o unrhyw ddigwyddiad tebyg yn unol â Rheol 13 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, byddwn yn anfon llythyr (a elwir yn llythyr Rheol 8) yn amlinellu Amserlen Derfynol yr Archwiliad. Bydd nodyn o'r cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) hefyd.



Penderfyniadau Gweithdrefnol Eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Rydym wedi gwneud rhai Penderfyniadau Gweithdrefnol pellach sydd wedi'u nodi'n fanwl yn **Atodiad E** i'r llythyr hwn. Maent wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- ceisiadau am Ddatganiadau Tir Cyffredin a datganiadau cyffredinrwydd Datganiadau Tir Cyffredin;
- cais am leoliadau awgrymedig ar gyfer Arolygiad Safle â Chwmni;
- ceisiadau am Adroddiadau ar yr Effaith Leol erbyn Dyddiad Cau 1;
- ceisiadau am Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol a / neu Wrandawriad Llawr Agored erbyn Dyddiad Cau 1;
- cais am ymatebion i Sylwadau Perthnasol erbyn Dyddiad Cau 1;
- cais am Restr o'r newidiadau i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft pa bryd bynnag y gwneir newidiadau i gynnwys y ddogfen honno;
- ceisiadau am ddogfennau cyfredol rheolaidd yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys fersiynau cyfredol o'r Traciwr Dogfennau'r Cais, Memorandwm Esboniadol, Datganiad o Resymau, Rhestr Trafodaethau Buddiannau Tir, Datganiad Cyllid a'r Llyfr Cyfeirio;
- cais am Draciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol a Thraciwr y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol, ynghyd â diweddariadau rheolaidd i'r dogfennau hyn, yn ôl y gofyn, gan y gallai'r dogfennau hyn ystyried materion sy'n bwysig ac yn berthnasol wrth ystyried y Cais NSIP hwn;
- dyddiad cau i'r Ymgeisydd a'r holl Bartïon â Buddiant gyflwyno eu cyflwyniadau terfynol erbyn y dyddiad cau terfynol (Dyddiad Cau 8, dydd Mawrth 12 Medi 2023), yn manylu ar safbwyntiau terfynol yr ymatebwyr ar eu prif faterion ar ddiwedd yr Archwiliad; a
- derbyn Cyflwyniadau Ychwanegol i'r Archwiliad.

Nodyn yr Awdurdod Archwilio o Arolygiad Safle Di-gwmni

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio Arolygiad Safle Di-gwmni (USI) dros ddeuddydd ar 15 ac 16 Tachwedd 2022. Cyfeirir at y rhain fel USI1 ac USI2 o hyn ymlaen. Cyhoeddwyd cofnod cryno o USI1 ac USI2 i roi gwybod i'r Ymgeisydd, Partïon â Buddiant a phartïon eraill am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio ar [dudalen we'r prosiect](#) â chyfeirnodau [EV-003] ([Cymraeg](#)) ([English](#)) ac [EV-004] ([Cymraeg](#)) ([English](#)) yn Llyfrgell yr Archwiliad.

Rheoli gohebiaeth yr Archwiliad

O ystyried nifer ac amlder y llythyrau y mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio eu hanfon at Bartïon â Buddiant yn ystod Archwiliad, ein nod yw cyfathrebu â phobl drwy'r e-bost, gan fod cyfathrebu'n electronig yn fwy ecogyfeillgar ac yn gost effeithiol i drethdalwyr.



Os ydych wedi cael llythyr ond rydych yn gallu derbyn gohebiaeth drwy'r e-bost, rhowch wybod i Dîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda.

Gan fod proses yr Archwiliad yn gwneud defnydd sylweddol o ddogfennau electronig, byddai'n ddefnyddiol i chi ymgynffwrdd â [thudalen we'r prosiect](#).

Rhaid i bob cyflwyniad tebyg fod mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylai crynodeb gyd-fynd ag unrhyw gyflwyniad sy'n fwy na 1500 gair; ni ddylai'r crynodeb hwnnw fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Os byddwch chi'n cyflwyno eich sylwadau drwy'r e0bost, dylech roi teitl y dyddiad cau perthnasol yn y 'llinell pwnc', yn unol ag Amserlen yr Archwilio – bydd hyn yn helpu Tîm yr Achos i ddeall beth mae'ch cyflwyniad yn ymwneud ag ef. Os ydych o'r farn nad yw eich cyflwyniad yn cyd-fynd â disgrifiad unrhyw un o benawdau'r dyddiadau cau, rhowch 'Arall' yn llinell pwnc eich neges e-bost. Os cewch unrhyw drafferth wrth gyflwyno dogfen erbyn dyddiad cau, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn, a byddant yn gallu eich helpu.

Mae gan dudalen we'r prosiect gyfleuster ar ochr dde'r dudalen o'r enw 'Diweddariadau trwy'r e-bost'. Mae hwn yn rhoi cyfle i chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r e-bost yn awtomatig ar gamau allweddol yn ystod yr Archwiliad.

Y Gymraeg

Rydym yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg yn ystod yr Archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, ac mewn unrhyw Wrandawiadau a gynhelir, i alluogi'r rhai sy'n bresennol i gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Eich statws yn yr Archwiliad

Rydych wedi derbyn y llythyr hwn gan eich bod yn disgyn o fewn un o'r grwpiau sydd wedi'u disgrifio yn nogfen yr Arolygiaeth Gynllunio [Beth yw fy statws yn yr Archwiliad?](#)

Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau â 'HYCO-200', 'HYCO-0', 'HYCO-AFP', 'HYCO-S57' 'HYCO-APP', rydych chi yng Ngrŵp A. Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau â 'HYCO-SP', rydych chi yng Ngrŵp B. Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau â 'HYCO-OP', rydych chi yng Ngrŵp C. Caiff ystyr a diben y grwpiau hyn eu hesbonio yn y ddogfen sydd wedi'i chyhoeddi yn y ddolen uchod.

Ar ôl darllen y ddogfen hon, os ydych yn ansicr ynghylch eich statws o hyd, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

Dyfarnu costau

Fel arfer, disgwylir i bob parti dalu ei gostau ei hun. Gellir dyfarnu costau yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol neu sydd wedi achosi i'r parti sy'n gwneud



cais am ddyfarnu costau fynd i gostau diangen neu wastraffus yn ystod yr Archwiliad. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllawiau costau perthnasol, sef [Dyfarnu costau: archwiliadau o geisiadau am orchmynion caniatâd datblygu](#).

Rheoli gwybodaeth

Mae'r wybodaeth, gan gynnwys sylwadau, a gyflwynir mewn perthynas â'r Archwiliad hwn (os caiff ei derbyn gan yr Awdurdod Archwilio), ynghyd â chofnod o unrhyw gyngor a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, yn cael ei chyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#). Sylwer, oni nodir yn wahanol, yr holl derfynau amser yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad (Atodiad D), ac fel y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn, yw 23:59 ar y dyddiad cau.

Gellir edrych ar Ddogfennau'r Archwiliad yn electronig yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad F** i'r llythyr hwn hefyd.

Sylwer, er mwyn hwyluso Archwiliad effeithiol a theg, mae angen cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol. I gael gwybod sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#).

Edrychwn ymlaen at gydweithio â'r holl bartïon yn yr Archwiliad o'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Christopher Butler

Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio

Atodiadau

- A** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- B** Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol
- C** Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion
- D** Amserlen Ddrafft yr Archwiliad
- E** Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
- F** Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad

Nid yw'r ohebiaeth hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

Edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Rhaid i chi gofrestru erbyn dydd lau 9 Mawrth 2023 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a rhoi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).

Os hoffech wyllo'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn unig, nid oes angen i chi gofrestru gan y byddwch yn gallu gwyllo ffrwd fyw o'r digwyddiad. Bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar [dudalen we're prosiect](#) yn fuan cyn i'r digwyddiad ddechrau. Byddwch yn gallu gwyllo recordiad o'r digwyddiad hefyd, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) yn fuan ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben.

Dyddiad: Dydd Llun 20 Mawrth 2023

Cynhadledd Trefniadau: 9.30am

Amser dechrau'r cyfarfod: 10.00am

Lleoliad: **Rhith-ddigwyddiad (Microsoft Teams)**
Bydd cyfarwyddiadau llawn am sut i ymuno â'r digwyddiad ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi ymlaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru ymlaen llaw

Yn bresennol: **Partion a wahoddwyd sydd wedi cofrestru ymlaen llaw**

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol	
9.30am	<p>Rhith-gynhadledd Trefniadau</p> <p>Dylech gyrraedd am 9.30am i fynd i'r cyntedd rhithiol. O'r fan honno, bydd Tîm yr Achos yn eich derbyn i'r Gynhadledd Trefniadau, yn eich cyfarch ac yn rhoi cyfarwyddiadau pellach i chi.</p> <p>Bydd y Gynhadledd Trefniadau yn dechrau am 9.40am. Caiff ei chynnal gan Dîm yr Achos a bydd yn cynnwys y trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn eich caniatáu i ofyn unrhyw gwestiynau am sut i gymryd rhan.</p>
10.00am	<p>Cyfarfod Rhagarweiniol</p> <p>Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn agor yn ffurfiol am 10.00am. Bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn ymuno, yn croesawu'r cyfranogwyr ac yn arwain y cyflwyniadau.</p>
Eitem 1	
Eitem 2	<p>Bydd yr ExA yn gwneud sylwadau am y broses Archwilio, gan gynnwys cyfeirio, lle bo hynny'n briodol, ar unrhyw geisiadau gweithdrefnol i'r eitem hon a gyflwynwyd yn ysgrifenedig i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn Dyddiad Cau Gweithdrefnol A (dydd lau 9 Mawrth 2023).</p>

Eitem 3	Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion – Atodiad C i'r llythyr Rheol 6.
Eitem 4	Penderfyniadau Gweithdrefnol a Wnaed gan yr ExA – Atodiad E i'r llythyr Rheol 6.
Eitem 5	Amserlen Ddrafft yr Archwiliad – Atodiad D i'r llythyr Rheol 6. Gan gynnwys y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno: <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ysgrifenedig; • Adroddiadau ar yr Effaith Leol; • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr ExA; • Datganiadau Tir Cyffredin; a • Cheisiadau gweithdrefnol yn ymwneud â'r eitemau hyn a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig erbyn Dyddiad Cau Gweithdrefnol A (dydd Iau 9 Mawrth 2023).
Eitem 6	Dyddiadau a fformat y Gwrandawiadau a'r Arolygiadau Safle â Chwmni (yn ôl y gofyn) (ASI): <ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad a fformat unrhyw Wrandawriad Llawr Agored (yn ôl y gofyn); • Dyddiad a fformat unrhyw Wrandawriad Caffael Gorfodol (yn ôl y gofyn); • Y cyfnod amser a'r fformat a gedwir ar gyfer unrhyw Wrandawiadau Materion Penodol (yn ôl y gofyn); • Dyddiad Arolygiad Safle â Chwmni i safle'r cais a'r ardal gyfagos (gan gynnwys amserlen ddrafft) (yn ôl y gofyn); a • Cheisiadau gweithdrefnol yn ymwneud â'r eitemau hyn a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig erbyn Dyddiad Cau Gweithdrefnol A (dydd Iau 9 Mawrth 2023).
Eitem 7	Unrhyw gwestiynau neu gyflwyniadau sy'n weddill yn ymwneud â materion gweithdrefnol nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr agenda ac a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol.
Eitem 8	Unrhyw fater arall.
Diwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol	

Dylech ymuno â'r cyntedd rhithiol yn brydlon gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau a fydd yn cael eu hanfon atoch. Bydd y digwyddiad yn dechrau am **10.00am** ni waeth am unrhyw un a fydd yn cyrraedd yn hwyr, y mae'n bosibl na fydd modd iddynt ymuno.

Gall gymryd peth amser i dderbyn cyfranogwyr o'r cyntedd rhithiol. Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd tra byddwch yn aros.

Gall yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol newid yn ôl disgrisiwn yr ExA ond, wrth wneud newidiadau, bydd yr ExA yn dra ymwybodol o'r angen i roi'r cyfle i bob Parti a Wahoddwyd gymryd rhan yn deg.

Rhaid i unrhyw gais i gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- eich enw a'ch rhif cyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu'ch neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio)
- eich cyfeiriad e-bost (os oes un ar gael) a'ch rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/sefydliad rydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol); a'r
- eitem ar yr agenda yr hoffech siarad amdani a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud.

Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Cefndir

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynnal yn rhithiol, gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn ymwybodol o syrffed ar fideo-gynadledda, a'i nod fydd sicrhau bod y trafodion yn cadw ffocws a'u bod mor effeithlon â phosibl. Mae'r atodiad hwn yn eich galluogi i gael gwybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei chynnwys yn sylwadau cyflwyniadol yr Awdurdod Archwilio ymlaen llaw. Dylech ei ddarllen yn ofalus. Bydd yr Awdurdod Archwilio ond yn cyflwyno crynodeb o'r prif bwyntiau sydd wedi'u hamlinellu yma er mwyn sicrhau bod gymaint o amser ag y bo modd ar gael i gyfranogwyr siarad.

Yr Awdurdod Archwilio a Thîm yr Achos

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyflwyno ei hun ar ddechrau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn cael ei gefnogi gan Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn ystod y Gynhadledd Trefniadau, bydd aelod o Dîm yr Achos yn croesawu ac yn derbyn cyfranogwyr o'r cyntedd rhithiol, a bydd ar gael i ateb cwestiynau drwy'r e-bost cyn ac ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol. Y cyfeiriad e-bost yw: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk.

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynnal i drafod y trefniadau ar gyfer yr Archwiliad o'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), ac y cyfeirir ato'n gyffredinol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r Archwiliad fel y 'Datblygiad Arfaethedig'. Gwnaed y cais gan Liverpool Bay CCS Limited, y cyfeirir ato fel 'yr Ymgeisydd'.

Cewch wybodaeth am y cais a, maes o law, dogfennau a luniwyd ar gyfer yr Archwiliad, ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ([tudalen we'r prosiect](#)). Mae [tudalen we'r prosiect](#) yn cynnwys dolenni i Amserlen yr Archwiliad, Sylwadau Perthnasol a dogfennau'r Archwiliad a gweithdrefn yr Archwiliad.

Fe'ch anogir i edrych ar [dudalen we'r prosiect](#) os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, oherwydd y bydd yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â chi ac yn eich galluogi i edrych ar ddogfennau ar hyd yr Archwiliad.

Prif ddiben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw trafod y trefniadau ar gyfer yr Archwiliad o'r cais. Mae'n canolbwyntio ar y broses yn unig ac ni fydd yn edrych ar sylwedd y cynigion. Mae cwestiynau, trafodaethau a sylwadau am rinweddau neu anfanteision y Datblygiad Arfaethedig ar gyfer yr Archwiliad ei hun, a fydd yn dechrau y diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.

Y Cyfarfod Rhagarweiniol fydd eich cyfle i ddylanwadu ar y broses y mae'r Awdurdod Archwilio yn bwriadu ei dilyn. Mae'r agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol wedi'i hatodi at y llythyr Rheol 6 hwn yn **Atodiad A**. Mae'n bwysig bod gennych y llythyr a'r agenda o'ch blaen a'ch bod yn cyfeirio atynt yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol. Efallai yr hoffech eu hargraffu cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn gallu cyfeirio atynt.

Canllawiau a pholisi'r Llywodraeth

Mae'r cais yn NSIP dan Ddeddf Cynllunio 2008 (DC2008) o ganlyniad i adrannau 14(1)(g) a 21 DC2008, gan ei fod yn cynnwys adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw piblinell trawsgwlad, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig, sy'n rhagori ar y trothwy o 16.093 cilomedr. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) 'Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni' (NPS EN-1) a seilwaith cyflenwad nwy a phiblinellau nwy ac olew (NPS EN-4) yn berthnasol i'r Archwiliad hwn a phenderfyniadau yn ymwneud â'r cais hwn.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried y Datblygiad Arfaethedig yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol a grybwyllir uchod ac unrhyw bolisi neu ystyriaethau perthnasol eraill y mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn eu bod yn bwysig ac yn berthnasol. Mae DC2008 yn egluro, wrth wneud penderfyniad, bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) *"benderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol"* (a104(3)), yn ddarostyngedig i amodau penodol. Yn yr hanfod, yr amodau yw na ddylai'r cais dorri rhwymedigaethau cyfreithiol na rhwymedigaethau cytuniad, ac na fyddai unrhyw effaith niweidiol y Datblygiad Arfaethedig yn gorbwysu ei buddion.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i anwybyddu unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â rhinweddau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol dynodedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod Archwilio yn treulio amser yn archwilio sylwadau sy'n herio polisi sydd wedi'i amlinellu mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol, na dilysrwydd Datganiadau Polisi Cenedlaethol eu hunain. Bydd y ffocws ar rinweddau neu anfanteision y Datblygiad Arfaethedig, wedi'u profi i'r graddau priodol gan ddefnyddio'r profion sydd wedi'u pennu mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol dynodedig perthnasol sydd ar waith.

Mae polisiâu cynllunio pwysig a pherthnasol eraill y gall yr Awdurdod Archwilio eu hystyried yn cynnwys polisiâu yng nghynlluniau datblygu'r awdurdodau lleol perthnasol. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn gwrthdaro â pholisi mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol, y Datganiad Polisi Cenedlaethol fydd drechaf.

Yn gryno, bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn penderfynu ar y gweithdrefnau ar amserlen ar gyfer yr Archwiliad o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd yn pennu fframwaith ar gyfer yr Awdurdod Archwilio i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ystyried a phenderfynu ar y cais. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried:

- Safbwyntiau a sylwadau'r holl Bartïon â Buddiant (IPau);
- unrhyw Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) a baratowyd ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol perthnasol;

- materion rhagnodedig eraill; ac
- unrhyw fater arall sy'n ymddangos yn berthnasol ac yn bwysig i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Gwahoddedigion i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Gwahoddir yr Ymgeisydd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ac, yn gyffredinol, rhoddir cyfle iddo ymateb i unrhyw sylwadau a wneir.

Mae pawb sydd wedi gwneud Sylwadau Perthnasol wedi'u cofrestru'n Barti â Buddiant ac wedi'u gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae gan bob Parti â Buddiant hawl i gymryd rhan yn yr Archwiliad.

Mae pob unigolyn neu sefydliad sydd â buddiant mewn tir neu hawliau y mae cais am Gaffaeliad Gorfodol yn y cais hwn yn effeithiol arnynt yn Unigolion yr Effeithir Arnynt (AP) ac fe'u gwahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Yn ogystal â hawl gyffredinol i gymryd rhan yn yr Archwiliad, mae gan Unigolion yr Effeithir Arnynt hawl i gael eu clywed mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad am effeithiau Caffaeliad Gorfodol ar eu buddiannau mewn tir, a hawl i gael eu hysbysu am unrhyw Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol (CAH). Mae Unigolion yr Effeithir Arno yn Bartion â Buddiant, p'un a ydynt wedi gwneud Sylwadau Perthnasol dilys ai peidio.

Mae cyrff penodol yn Bartion Statudol ac fe'u gwahoddwyd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Gall Partion Statudol ddewis bod yn Bartion â Buddiant heb wneud Sylwadau Perthnasol trwy roi gwybod i'r Awdurdod Archwilio yn ysgrifenedig.

Mae gan yr Awdurdod Archwilio y pŵer i gynnwys pobl nad ydynt yn Bartion â Buddiant yn yr Archwiliad fel petaent yn Bartion â Buddiant, gan gynnwys eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Fodd bynnag, gwneir hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, er enghraifft pe bai'n amlwg y byddai'r cais yn effeithio'n sylweddol ar unigolyn nad yw'n Barti â Buddiant fel mater o drefn neu'n gymwys i ddewis bod yn Barti â Buddiant ac nad oeddent wedi gallu cymryd y camau angenrheidiol i gofrestru fel Parti â Buddiant.

Cynnal y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'r Awdurdod Archwilio yn amcangyfrif y bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn para rhwng un a thair awr.

Yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, efallai y bydd rhaid i gyfranogwyr fod yn ystyriol ac yn amyneddgar os oes oedi yn gysylltiedig â'r dechnoleg a ddefnyddir. Er mwyn cydnabod y syrffed sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ar sgrin, bydd yr Awdurdod Archwilio yn darparu egwylliau yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, fel y bo'n briodol.

Bydd recordiad digidol o'r Cyfarfod Rhagarweiniol ar gael ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben. Mae'r recordiad yn caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y cais a'r Archwiliad ddarganfod beth a drafodwyd yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae gwneud a chyhoeddi'r recordiadau hyn yn fodd i'r Awdurdod Archwilio fodloni'r gofyniad

cyfreithiol i gynnal y Cyfarfod Rhagarweiniol (ac unrhyw wrandawriad arall) yn gyhoeddus. Yn hyn o beth, **bydd angen i unrhyw un sy'n siarad yn y Cyfarfod Rhagarweiniol gyflwyno'i hun bob tro y bydd yn siarad**, er mwyn sicrhau bod unrhyw un sy'n gwrandao ar y recordiad ar ôl y digwyddiad yn glir ynghylch pwy oedd yn siarad. Bydd nodyn ysgrifenedig o'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei lunio a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.

Gan y caiff y recordiadau eu cadw a'u cyhoeddi, maent yn ffurfio cofnod cyhoeddus a all gynnwys gwybodaeth bersonol y mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn berthnasol iddi. Rhaid i gyfranogwyr wneud eu gorau i osgoi rhoi unrhyw wybodaeth y dylid ei chadw'n breifat ac yn gyfrinachol fel arall. Os oes angen cyfeirio at unrhyw wybodaeth debyg, dylai fod ar ffurf ysgrifenedig. Er y caiff hyn ei gyhoeddi hefyd, gellir golygu neu ddileu cynnwys personol a phreifat cyn iddo fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw un sy'n aneglur ynghylch y pwynt hwn ofyn am arweiniad gan Dîm yr Achos cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth bersonol neu breifat.

Arfer yr Arolygiaeth Gynllunio yw cyhoeddi'r recordiadau a'u cadw am gyfnod o bum mlynedd o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y DCO. Os byddwch yn cyfranogi'n weithredol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, mae'n bwysig eich bod yn deall y cewch eich recordio ac y bydd y recordiad hwnnw ar gael i'r cyhoedd. Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) am fwy o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â'ch data.

Ar ôl cyflwyniadau'r Awdurdod Archwilio, gofynnir i bob un o'r cyfranogwyr sydd wedi cofrestru i siarad gyflwyno'u hunain, gan gynnwys unrhyw sefydliadau neu grwpiau maent yn eu cynrychioli. Yna, bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y cyfarfod yn unol â'r agenda. Pe byddai'n well gennych beidio â recordio'r llun ohonoch, gallwch ddiffodd eich camera ar unrhyw adeg.

Proses yr Archwiliad

Mae'r Archwiliad o NSIPau yn dilyn prosesau gwahanol i'r rhai, er enghraifft, mewn Ymchwiliad Cyhoeddus i apêl cynllunio ar ôl gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Y prif wahaniaethau yw bod yr Archwiliad o NSIPau yn broses ysgrifenedig, yn bennaf, ac mae gwrandawriadau'n defnyddio ymagwedd holgar yn hytrach nag ymagwedd wrthwynebus.

Mae hyn yn golygu y bydd yr Awdurdod Archwilio yn archwilio, profi ac yn asesu'r dystiolaeth gan ddefnyddio cwestiynau ysgrifenedig yn bennaf. Er y caiff rhai gwrandawriadau eu cynnal i ddarparu tystiolaeth ategol, daw rhai cwestiynau i'r Ymgeisydd neu dystion gan yr Awdurdod Archwilio. Yn gyffredinol, ni chaniateir i dystion gael eu holi na'u croesholi gan bartïon eraill.

O ran cyfleoedd i ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig, mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn darparu ar gyfer y prosesau ysgrifenedig canlynol:

- Gall awdurdodau lleol gyflwyno Adroddiadau ar yr Effaith Leol, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er eu bod yn wirfoddol, mae DC2008 yn amodi, os cânt eu darparu, bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth wneud penderfyniad. O ganlyniad, mae Adroddiadau ar yr Effaith Leol yn ddull

pwysig iawn i awdurdodau lleol gyfleu materion sydd o bryder i'r Awdurdod Archwilio, yr Ysgrifennydd Gwladol a'u preswylwyr.

- Gall Partïon â Buddiant wneud Sylwadau Ysgrifenedig (WRau) a gwneud sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig a wneir gan bartïon eraill.
- Gall Partïon â Buddiant ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a gwneud sylwadau ar ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig hyn a ddarperir gan bobl eraill.
- Gellir gofyn i Bartïon â Buddiant gyfrannu at lunio Datganiadau Tir Cyffredin (DTCau), os yw'n ymddangos bod materion y maen nhw a'r Ymgeisydd yn cytuno arnynt a phe byddai'n ddefnyddiol cadarnhau hynny. Mae Datganiadau Tir Cyffredin yn ymestyn yn fwyaf defnyddiol i gadw cofnod o'r materion nad oes cytundeb yn eu cylch neu sy'n weddill.

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys cyfres o Ddyddiadau Cau wedi'u rhifo ar gyfer derbyn sylwadau ysgrifenedig. Bydd cyflwyniadau amserol sy'n cael eu derbyn erbyn y Dyddiad Cau perthnasol ac sy'n ateb ei ddiben yn cael eu derbyn.

Bydd dogfennau sy'n cyrraedd ar ôl y Dyddiad Cau perthnasol yn cael eu derbyn yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio yn unig ac efallai na chânt eu derbyn er mwyn sicrhau tegwch i bob parti. Gall amgylchiadau lle caiff dogfennau eu cyflwyno'n hwyr heb reswm da, gan achosi anghyfleustra neu oedi i bartïon eraill, fod yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol.

Y prosesau ysgrifenedig hyn fydd y prif fodd a ddefnyddir gan yr Awdurdod Archwilio i gasglu gwybodaeth, tystiolaeth a safbwyntiau ynglŷn â'r cais. Fodd bynnag, bydd yr Archwiliad ond yn effeithiol os bydd yr holl bartïon yn penderfynu rhoi atebion prydlon, llawn, didwyll, eglur ac wedi'u seilio ar dystiolaeth i bob cwestiwn sy'n berthnasol i'w buddiannau ac yn ymgysylltu'n llawn ag unrhyw brosesau cysylltiedig eraill, fel cwblhau Sylwadau Ysgrifenedig a Datganiadau Tir Cyffredin.

Nid oes unrhyw rinwedd i ddal gwybodaeth yn ôl neu oedi cyn rhoi gwybodaeth, neu fetu cydweithredu ac, os digwydd hynny, gallai unrhyw ymddygiad afresymol a achosodd i barti arall fynd i wariant gwastraffus arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y parti tramgwyddus.

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgrisiwn i wneud newidiadau i Amserlen yr Archwiliad er budd ehangach yr Archwiliad. Os yw'n bosibl, caiff digwyddiadau eu trefnu ar adegau pan fydd yr holl bartïon perthnasol ar gael, ond mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau'r Archwiliad erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben. Caiff y gofyniad hwn ei bennu gan ddeddfwriaeth ac er y bydd yr Awdurdod Archwilio yn ceisio aildrefnu dyddiadau digwyddiadau i fodloni'r holl bartïon perthnasol, yn ymarferol, ychydig iawn o le sydd i newid y dyddiadau sydd wedi'u pennu yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad.

Mae'r terfyn amser statudol ar gyfer yr Archwiliad yn golygu, lle mae materion y mae angen eu trafod a chytuno arnynt o hyd rhwng yr Ymgeisydd â'r Partïon â Buddiant, bydd yn ddefnyddiol iawn i'r Awdurdod Archwilio pe gellid bwrw ymlaen â'r rhain cyn gynted â phosibl.

Gwrandawiadau

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwrandawiadau, lle bydd yr Awdurdod Archwilio yn cymryd tystiolaeth lafar gan yr amryw bartïon.

Gall unrhyw Barti â Buddiant cofrestredig ofyn am **Wrandawiad Llwr Agored** (OFH) i wneud sylwadau llafar am y cais, os credant fod hynny'n well na dibynnu ar eu Sylwadau Ysgrifenedig, er y rhoddir yr un pwys ar y ddau ohonynt. Dylai cyflwyniadau llafar fod wedi'u seilio ar sylwadau a wnaed yn flaenorol yn ysgrifenedig, ond ni ddylent ailadrodd materion yr ymdriniwyd â nhw yn y cyflwyniad ysgrifenedig yn unig. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar fanylion penodol ac eglurhad i helpu i roi gwybodaeth i'r Awdurdod Archwilio. Ni ddylai fod unrhyw ddeunydd newydd neu annisgwyl mewn sylwadau llafar. Gofynnir am nodyn cryno ysgrifenedig ynghyd ag unrhyw dystiolaeth neu gyfeiriadau ategol gan bob siaradwr ar ôl y gwrandawiad.

Yn yr un modd â holl ddigwyddiadau'r Archwiliad, mae Gwrandawiadau Llwr Agored yn destun pwerau rheoli'r Awdurdod Archwilio, fel yr amlinellir yn DC2008 a deddfwriaeth ategol. Rhaid i gyfranogwyr gofrestru ymlaen llaw erbyn y dyddiad cau a nodir yn Amserlen yr Archwiliad ac yn unol â'r cyfarwyddiadau. Mae'n gyffredin i'r Awdurdod Archwilio bennu terfyn amser ar gyfer pob siaradwr a gofynnir i siaradwyr â phwyntiau cyffredin ddod at ei gilydd i enwebu un llefarydd neu siaradwyr cynrychioliadol i ymdrin â phynciau penodol, er mwyn osgoi unrhyw ailadrodd. Fel arfer, rhoddir amser ychwanegol i siaradwyr sy'n cynrychioli awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a sefydliadau ag aelodaeth neu nifer o Bartïon â Buddiant, gan gydnabod eu rôl gynrychioliadol.

Mae DCO drafft yr Ymgeisydd yn darparu ar gyfer Caffaeliad Gorfodol tir a hawliau a Meddiannu Tir Dros Dro. Mae gan Unigolion yr Effeithir Arnynt (h.y. y rhai yr effeithir ar eu tir neu eu hawliau dros dir) hawl i ofyn am gael eu clywed mewn **Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol**. Os bydd un neu fwy o'r Unigolion yr Effeithir Arnynt yn gofyn am gael eu clywed, yna rhaid cynnal Gwrandawiad Caffaeliad Gorfodol. Mae dyddiadau dros dro ar gyfer Gwrandawiadau Caffaeliad Gorfodol wedi'u cynnwys yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad, ynghyd â'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i gael eich clywed.

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i gynnal **Gwrandawiadau Materion Penodol** (ISHau) pe byddai'n helpu'r Archwiliad ac os oes rheswm penodol y byddai hynny'n fwy defnyddiol na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Nid yw diffyg Gwrandawiad yn ymwneud â Materion Penodol ar un neu fwy o bynciau yn awgrymu bod y pwnc hwnnw'n llai pwysig na rhai arall sy'n destun gwrandawiad. Yn hytrach, mae'n dangos bod yr Awdurdod Archwilio yn fodlon y gellir ystyried y materion yn gyfan gwbl trwy gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymatebion i'w gwestiynau ysgrifenedig, a bod pob parti wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys nifer o ddyddiadau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer Gwrandawiadau yn ymwneud â Materion Penodol a gall Partïon â Buddiant awgrymu pynciau i'w trafod mewn gwrandawiad yn eu sylwadau ysgrifenedig neu lafar yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Efallai y bydd angen i'r Awdurdod Archwilio gynnal mwy nag un Gwrandawriad yn ymwneud â Materion penodol ar y DCO drafft. Mae hwn yn arfer cyffredin a chânt eu cynnal ar sail ddiragfarn. Gall partiön awgrymu addasiadau a newidiadau i'r DCO drafft a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd gyda'r cais, heb niweidio eu sefyllfa gyffredinol ar y cais.

Nid yw cynnal y gwrandawriadau hyn yn awgrymu bod yr Awdurdod Archwilio wedi gwneud unrhyw farn ar rinweddau'r cais. Beth bynnag yw'r argymhelliad yn y pen draw, rhaid i'r Awdurdod Archwilio sicrhau bod y DCO drafft yn addas i'r diben os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dewis rhoi caniatâd, gan y bydd unrhyw ganiatâd yn destun Gofynion (h.y. amodau) a amlinellir yn y DCO.

Mewn gwrandawriadau, nid fydd angen i bartiön roi cyflwyniadau hir a manwl sy'n mynnu (er enghraifft) cyflwyniadau PowerPoint. Gellir darparu unrhyw fanylion/gwybodaeth ategol yn ysgrifenedig ar ôl y digwyddiad erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys dyddiad cau (Dyddiad cau 1 **dydd Llun 17 Ebrill 2023**) i gyfranogwyr roi gwybod i'r Awdurdod Archwilio yr hoffent siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored neu Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol.

Arolygiadau safle

Fel rhan o broses yr Archwiliad, gall yr Awdurdod Archwilio gynnal arolygiadau safle. Gall y rhain fod â chwmni neu'n ddigwmni. Diben y rhain yw er mwyn i'r Awdurdod Archwiliad weld nodweddion o'r cynigion yng nghyd-destun y dystiolaeth a gyflwynwyd. Caiff nodiadau o Arolygiadau Safle Di-gwmni (USlau) eu cyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#).

Bydd Arolygiadau Safle â Chwmni (ASlau) ond yn angenrheidiol i edrych ar dir lle nad oes unrhyw hawl mynediad cyhoeddus neu lle nad oes golygfa glir o leoliadau cyfagos sydd â mynediad cyhoeddus agored. Diben Arolygiadau Safle â Chwmni yw ymgyfarwyddo'n unig ac ni fydd unrhyw drafodaeth am rinweddau'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod Arolygiad Safle â Chwmni.

Gall yr Awdurdod Archwilio ddewis cynnal Arolygiadau Safle Di-gwmni mewn lleoliadau enwebedig perthnasol, wedi'u hategu gan gyflwyno deunydd ysgrifenedig, ffotograffig a fideo ychwanegol neu ddeunydd drôn hyd yn oed, pe byddai hynny'n well nag ymweld â safleoedd neu gynnal Arolygiadau Safle â Chwmni mewn amgylchiadau lle y gallant fod yn anodd neu fynnu llawer o amser (er enghraifft os oes cyfyngiadau iechyd y cyhoedd ar waith). Gall yr Awdurdod Archwilio ystyried hefyd a fyddai'n briodol gwneud trefniadau i ddarparu mynediad at safleoedd penodol yn unig, fel y gellid eu harolygu fel rhan o Arolygiad Safle Di-gwmni ar sail bod angen mynediad (ARSI).

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys dyddiad cau i Bartiön â Buddiant wneud cyflwyniadau yn awgrymu safleoedd a lleoliadau y dylai'r Awdurdod Archwilio ymweld â nhw. Caiff y rhain eu defnyddio i lywio rhagor o Arolygiadau Safle Di-gwmni/ARSI, yn ogystal ag Arolygiadau Safle â Chwmni posibl.

Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Dyma'r Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion a baratowyd fel sy'n ofynnol dan adran 88(1) Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ar ôl iddo ddarllen:

- Dogfennau'r cais;
- y Sylwadau Perthnasol a gafwyd yn gysylltiedig â'r cais; ac
- ar ôl ystyried unrhyw faterion pwysig a pherthnasol eraill.

Mae'r asesiad cychwynnol hwn wedi llywio'r Awdurdod Archwilio i lunio barn dros dro ynghylch sut y dylid archwilio'r cais. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr na chyfyngedig o'r materion a fydd yn destun archwiliad ac mae'n anochel y bydd rhai materion yn gorgyffwrdd neu'n cydberthyn â'i gilydd. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol yn ystod yr Archwiliad ac wrth ysgrifennu ei Adroddiad Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben.

Mae'r materion wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor ac nid yw'r drefn yn awgrymu unrhyw flaenoriaeth neu bwysigrwydd.

Mae'r gofynion polisi a chaniatâd a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â DC2008 yn rhan annatod o'r Archwiliad, felly nid ydynt wedi'u rhestru fel prif faterion.

Dylid nodi hefyd, er nad yw effeithiau'r cynnig mewn perthynas â dyletswyddau hawliau dynol a chydaddoldebau wedi'u rhestru fel prif faterion, bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried y rhain wrth gynnal pob agwedd ar yr Archwiliad.

Prif Fater	Ymhelaethiad Cryno I gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol, o reidrwydd:
Asesiad o'r Cynigion Amgen	<ul style="list-style-type: none"> • Senarios datblygu ac Amlen Rochdale, gan gynnwys sail resymegol y llwybr dewisol a diystyru llwybrau posibl eraill. • Dethol safleoedd ar gyfer y Gosodiadau Ar Ben Tir (AGlau). • Dethol safleoedd ar gyfer y Gorsafoedd Falfiau Atal (BVSau). • Yr angen am y math hwn o seilwaith ynni ac, yn benodol, am y Datblygiad Arfaethedig.
Newid yn yr Hinsawdd	<ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar newid yn yr hinsawdd. • Allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o waredu biomas a lleihau atafaelu carbon o ganlyniad i aflonyddu ar fawn dwfn, yn enwedig yng Nghorsydd Frodsham, Helsby ac Ince a Gowy Meadows.

	<ul style="list-style-type: none"> • Y newid cyffredinol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a all deillio o adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. • Cyflawni datblygu cynaliadwy, gan gynnwys lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. • Ystyried cyllidebau carbon o'r Gorchymyn Cyllideb Carbon cyfredol. • Polisi'r Llywodraeth ar gyfer y targed allyriadau sero erbyn 2050. • Addaswydd mesurau lliniaru arfaethedig â Chynllun Rheoli Amgylcheddol y Fframwaith Adeiladu.
<p>Caffaeliad Gorfodol a/neu Feddiant Dros Dro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr angen i'r tir fod yn destun Caffaeliad Gorfodol a/neu Feddiant Dros Dro a faint o dir y cynigir ei gynnwys. • P'un a yw'r dewisiadau amgen rhesymol wedi'u harchwilio'n ddigonol. • Y gofyniad am y pwerau a geisir a ph'un a sefydlwyd achos cymhellol er budd y cyhoedd. • Yr effeithiau ar y rhai y mae caffaeliad gorfodol/meddiant dros dro yn effeithio arnynt. • Y tir, hawliau a'r pwerau a geisir. • Safbwynt, ac effeithiau ar Ymgymrwyr Statudol, darpariaethau a warchodir a ph'un a fyddai profion a127 ac a138 o DC2008 yn cael eu bodloni. • Hawliau'r Goron dros y tir ac unrhyw ddarpariaethau rheoleiddiol cysylltiedig. • Digonolrwydd a diogelwch cyllid ar gyfer iawndal. • Cyfyngiadau ar hawliau tramwy a mynediad. • Unrhyw ystyriaethau hawliau dynol. • Cywirdeb y Llyfr Cyfeirio, gan gynnwys y dull a ddefnyddiwyd i nodi partïon Categori 1/2. • Datganiad o'r Rhesymau a chyfiawnhad dros y pwerau a geisir. • P'un a yw'r cynigion yn bodloni gofynion DC2008 ym mhob agwedd arall.
<p>Treftadaeth Ddiwylliannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar asedau treftadaeth (Dynodedig a Heb eu Dynodi) a'u lleoliadau gweledol ac ymarferol, ac ar archaeoleg. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ lefel effaith y biblinell o Ince trwy Stanlow i Cryers Lane ar y safle amffosog rhestredig yn Elton; ○ effeithiau'r rhan o'r biblinell sy'n agos at yr A41 i'r A48 ar asedau treftadaeth dynodedig; a'r ○ effeithiau ar olion o'r Oes Efydd yn ystod y cyfnod adeiladu. • Effeithiolrwydd cyffredinol y mesurau lliniaru arfaethedig.
<p>Dyluniad a Chynllun</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyluniad yr AGLau a'r BVSau.

<p>Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Priodoldeb a digonolrwydd DCO drafft (dDCO) yr Ymgeisydd, gan gynnwys mesurau lliniaru arfaethedig ac i ba raddau y dylid rheoli a sicrhau'r mesurau lliniaru hyn trwy unrhyw Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). • Erthyglau a Gofynion yn y dDCO, gan gynnwys yn ymwneud â: <ul style="list-style-type: none"> ○ phriodoldeb unrhyw gynnig am Orchymyn Cau (e.e. Cryers Lane); ○ hyblygrwydd dyluniad y Cynllun; a'r ○ cynllun ar gyfer cyflawni Gofynion y DCO a'r awdurdodau priodol ar gyfer cymeradwyo'r cyflawni hwnnw. • Darpariaethau amddiffynnol ac indemniadau. • Unrhyw ofyniad i sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio (h.y. unrhyw symiau gohiriedig/senarios digolledu oddi ar y safle ac ati).
<p>Bioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau dros dro a pharhaol ar rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys aflonyddwch sŵn, gweledol ac aflonyddwch arall, gan gyfeirio'n benodol at safleoedd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a safleoedd a rhywogaethau eraill a warchodir. • Ystyried unrhyw fesurau lliniaru, monitro, rheoli a digolledu angenrheidiol a'u heffeithiolrwydd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ lle mae'r datblygiad arfaethedig yn croesi afon Dyfrdwy; ac ○ unrhyw golled uniongyrchol/anuniongyrchol o goetir hynafol (gan gynnwys Coetir Hynafol Lled-naturiol a Choetir Hynafol Adferedig, fel safle Coetir Hynafol Adferedig Leadbrook Wood) a choed hynod i hwyluso llwybr arfaethedig y biblinell a'r effeithiau ecolegol anuniongyrchol sy'n deillio o wahanu unrhyw goetir. • Enillion net o ran bioamrywiaeth. • Addasrwydd cyffredinol unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig a chyfleoedd ar gyfer darpariaeth gyfoethogi lle y dangosir nad yw'n bosibl osgoi effeithiau ecolegol ar fflora a ffawna.
<p>Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Datganiad Amgylcheddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiad o'r effeithiau posibl a digonolrwydd yr asesiad o'r effeithiau amgylcheddol a ystyriwyd yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA). • Yr ymagwedd tuag at AEA, gan gynnwys defnyddio 'Amlen Rochdale' a'r 'egwyddorion dylunio', a ph'un a yw'r holl bamedrau a'r mesurau lliniaru angenrheidiol wedi'u cynnwys yn y dDCO. • Ystyried yr effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol ar nodweddion cymhwyso safleoedd Ewropeaidd.

<p>Perygl Llifogydd, Hydroleg ac Adnoddau Dŵr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried cywirdeb ac ansawdd yr Asesiadau Perygl Llifogydd a gyflwynwyd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ lleoliadau ger: Ince a Stanlow; afon Gowy i'r gogledd o Moston; ger Nant Backford ac i'r de o Saughall; ○ ystyried p'un a yw'r holl safleoedd dynodedig wedi'u cynnwys (mae AGA yr Aber a SoDdGA Aber Mersi wedi'u nodi'n dderbynyddion); a'r ○ effeithiau ar Nant Alltami o ddulliau adeiladu, ansawdd y cwrs dŵr a'i lannau; ○ pryderon lleol ynghylch yr effaith ar ardaloedd sydd â pherygl llifogydd yn Sealand, Brychdyn, Sandycroft a Mancot, ac o groesi 18 o gyrsiau dŵr. • Mesurau lliniaru'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) sy'n gysylltiedig â Chyrrff Dŵr wedi'u Haddasu'n Helaeth (HMWB) a'r mesurau lliniaru a nodwyd ar gyfer pob HMWB y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arno. • P'un a oes angen trwydded dylunio gwaith dros dro ai peidio. • Peryglon halogi yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu a ph'un a gyflwynwyd digon o wybodaeth i sicrhau bod y risg i'r amgylchedd dŵr o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i lliniaru'n effeithiol ai peidio.
<p>Daeareg a Halogiad Tir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr effeithiau ar dir amaethyddol o ansawdd uchel a thir arall. • Y peryglon o ddarganfod priddoedd/dŵr daear halogedig, gan gynnwys o safleoedd cyfagos a defnyddiau blaenorol, a sicrhau mesurau lliniaru priodol. • Yr effeithiau tebygol sy'n deillio o unrhyw lygredd a all effeithio ar drwyddedau busnes presennol gerllaw. • Y posibilrwydd o CO₂ yn gollwng / tryddiferu i'r tir neu'r aer a'r dulliau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r peryglon hynny. Yn benodol, y perygl o ollwng CO₂ i gyrsiau dŵr cydgysylltiedig a lle mae calchfaen a cheudyllau yn y ddaear yn nodweddiol daearegol hysbys yn yr ardal leol.
<p>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr ymagwedd tuag at asesiadau cronrus a chyfunol asesiadau yn Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a'u cwmpas.
<p>Tirwedd ac Amwynderau Gweledol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Parth Gwelededd Damcaniaethol – Effaith y Datblygiad Arfaethedig ar y dirwedd ac amwynderau gweledol. • I ba raddau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus. • Effeithiau goleuadau dros dro a pharhaol ar y dirwedd ac amwynderau gweledol. • Addasrwydd yr opsiynau ar gyfer AGLau a BVSau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd.

	<ul style="list-style-type: none"> • I ba raddau y dylid rheoli a sicrhau dyluniad strwythurau parhaol trwy unrhyw DCO.
Adnoddau mwynol	<ul style="list-style-type: none"> • Goblygiadau o ran safleoedd adnoddau mwynol – Mynediad a chymhwyso hawliau echdynnu mwynau.
Sŵn a Dirgryniad	<ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau sŵn a dirgryniad adeiladu ar dderbynyddion sensitif sy'n agos at y safle adeiladu, gan gynnwys preswylwyr a derbynyddion cymunedol, a chymunedau dyfrol / bywyd gwyllt. • Yr effeithiau sy'n deillio o sŵn gweithredu o'r Datblygiad Arfaethedig. • Effeithiolrwydd mesurau lliniaru.
Polisi Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> • P'un a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â: <ul style="list-style-type: none"> - Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1, Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni; a - Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-4, Seilwaith Cyflenwadau Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew. • Goblygiadau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni drafft ac unrhyw faterion pwysig a pherthnasol sy'n deillio ohonynt. • Goblygiadau'r diwygiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol yn Lloegr, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Rhagfyr 2022) a datblygiad arfaethedig Polisiâu Rheoli Datblygu Cenedlaethol ac unrhyw faterion pwysig a pherthnasol sy'n deillio ohonynt. • Polisiâu Cynlluniau Datblygu Lleol ac i ba raddau maent yn berthnasol ac yn bwysig.
Effeithiau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys iechyd y boblogaeth ac iechyd dynol	<ul style="list-style-type: none"> • I ba raddau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw fanteision economaidd-gymdeithasol o ran yr economi genedlaethol, ranbarthol neu leol. • I ba raddau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol ar yr economi genedlaethol, ranbarthol neu leol. • I ba raddau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effaith ar aelodau'r gymuned teithwyr. • Bregusrwydd o ran amlygrwydd i amrywiaeth o risgiau, damweiniau mawr ac argyfyngau. Effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar iechyd dynol o halogiad (gan gynnwys halogiad o'r awyr, fel nwyon daear), ansawdd aer (gan gynnwys o allyriadau prosesau gweithredol), sŵn a dirgryniad ac ati. • I ba raddau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn creu unrhyw risgiau iechyd y cyhoedd, yn enwedig o ran y derfynell AGI yn Ince, sy'n agos at safle a ddefnyddiwyd yn fasnachol yn hanesyddol mewn cysylltiad â'r diwydiant

	<p>gwrrtaith ac sy'n destun ardal effaith Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Addasrwydd mesurau gwerthuso, rheoli a lliniaru.
<p>Traffig, Trafnidiaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith y Datblygiad Arfaethedig ar lifoedd, oedi, lefelau a chylchrediad traffig yn y cyd-destun lleol a'r cyd-destun ehangach, gan gynnwys ar breswylwyr a busnesau lleol. • I ba raddau y byddai adeiladu / gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig a'r newidiadau cysylltiedig i symudiadau traffig yn effeithio ar ansawdd aer mewn perthynas â derbynyddion sensitif (dynol ac ecolegol) o draffig ac allyriadau adeiladu, llwch adeiladu, allyriadau prosesau gweithredol ac allyriadau traffig gweithredol. • I ba raddau y byddai adeiladu / gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar welliannau posibl i seilwaith presennol y priffyrdd, gan gynnwys Pont Ddyfrdwy ar yr A494 a'r posibilrwydd o dynnu peilonau a cheblau tanddaearol. • Effaith y Datblygiad Arfaethedig ar ddiogelwch y priffyrdd a diogelwch cerddwyr.
<p>Rheoli Gwastraff</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli gwastraff yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ac effeithiau gwaredu oddi ar y safle ar lifoedd a chylchrediad traffig yn y cyd-destun lleol a'r cyd-destun ehangach.

Amserlen yr Archwiliad

Amserlen Ddrafft yr Archwiliad o Biblinell Carbon Deuocsid HyNet		
Eitem	Materion	Dyddiad Gofynnol
1	<p>Dyddiad Cau Gweithdrefnol A</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyniadau ysgrifenedig ar weithdrefn yr Archwiliad, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau am ddefnyddio gweithdrefnau rhithiol. 	Dydd Iau 9 Mawrth 2023
2	Cyfarfod Rhagarweiniol (PM)	Dydd Llun 20 Mawrth 2023
3	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio (ExA):</p> <ul style="list-style-type: none"> Amserlen yr Archwiliad Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1) 	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
4	<p>Dyddiad Cau 1 (DC1)</p> <p>Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Unrhyw gyflwyniadau ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. Ymatebion i ExQ1 yr Awdurdod Archwilio. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). Sylwadau ar y Cyflwyniadau Perthnasol (RRau). Sylwadau ar Gyflwyniadau Ychwanegol (gweler Atodiad E). Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) gan Awdurdodau Lleol (gweler Atodiad E). Datganiadau Tir Cyffredin (DTCau) a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio – (gweler Atodiad E). Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin. Rhestr Caffaeliad Gorfodol (CA) / Meddiant Dros Dro (TP), gan gynnwys Rhestr Tir a Hawliau Ymgwymerwyr Statudol a127 a Rhestr Cyfarpar Ymgwymerwyr Statudol a138. 	Dydd Llun 17 Ebrill 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio (fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau) (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO (yn ôl y gofyn). • Traciwr Dogfennau'r Cais wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Traciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) cychwynnol a darparu dogfen sy'n rhoi diweddariadau yn ymwneud â phrosbectws y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) (Rhagfyr 2022) a dull arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Polisiâu Rheoli Datblygu Cenedlaethol (NDMP), fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn). • Sylwadau ysgrifenedig (WRau) (gan gynnwys crynodebau o'r holl sylwadau sy'n fwy na 1500 gair). • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored. • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol. • Hysbysiad o ddymuniad i fynychu Arolygiad Safle â Chwmni. • Sylwadau ar y lleoliadau awgrymedig i'w cynnwys mewn unrhyw Arolygiad Safle â Chwmni a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau Gweithdrefnol A. • Amserlen ddrafft yr Apelydd ar gyfer Arolygiad Safle â Chwmni. • Hysbysiad gan unrhyw Bartïon Statudol nad ydynt wedi cyflwyno Sylwadau Perthnasol o'u dymuniad i gael eu hystyried yn Bartïon â Buddiant. • Diweddariad yr Ymgeisydd ar y cais am Drwydded Forol (ML) a chynnydd. • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	
5	<p>Dyddiad Cau 2 (DC2) Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a gafwyd erbyn DC1, gan gynnwys Sylwadau Ysgrifenedig, LIRau ac unrhyw dDCO cyfredol, ynghyd ag amserlen ddrafft yr Ymgeisydd ar gyfer yr Arolygiad Safle â Chwmni. 	<p>Dydd Mawrth 2 Mai 2023</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i'r sylwadau ar y Sylwadau Perthnasol. • Sylwadau ar ymatebion i ExQ1 yr Awdurdod Archwilio. • Rhestr gyfredol o'r CA / TP mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio (fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau) (yn ôl y gofyn). • dDCO cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (yn ôl y gofyn). • Traciwr Dogfennau'r Cais wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word. • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn) mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Datganiad o gynnydd ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n weddill a chyflwyno'r Datganiadau Tir Cyffredin a gwblhawyd ers DC1. • Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (gweler Atodiad E) (yn ôl y gofyn). • Diweddariad ar y Drwydded Forol (yn ôl y gofyn). • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	
7	<p>Dyddiad Cau 3 (DC3) Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau a gafwyd erbyn DC2. • Ymatebion i'r sylwadau ar y LIRau. • dDCO cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (yn ôl y gofyn). • Rhestr gyfredol o'r CA / TP mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). 	<p>Dydd Mawrth 16 Mai 2023</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Datganiad o gynnydd ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n weddill a chyflwyno'r Datganiadau Tir Cyffredin a gwblhawyd ers DC2 (yn ôl y gofyn). • Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (yn ôl y gofyn). • Traciwr Dogfennau'r Cais wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn) mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Diweddariad ar y Drwydded Forol (yn ôl y gofyn). • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	
8	<p>Wythnos wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiaidau ac Arolygiad Safle â Chwmni (ASI), yn ôl y gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrandawiad(au) Materion Penodol. • Gwrandawiad(au) Caffaeliad Gorfodol. • Gwrandawiad(au) Llawr Agored. • Arolygiad Safle â Chwmni. 	w/d 5 Mehefin 2023
9	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail Gwestiynau Ysgrifenedig (ExQ2) yr Awdurdod Archwilio. 	Dydd Iau 15 Mehefin 2023
10	<p>Dyddiad Cau 4 (DC4)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodebau ysgrifenedig o'r cyflwyniadau llafar a wnaed mewn unrhyw Wrandawiaidau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 5 Mehefin 2023. • Unrhyw gyflwyniadau ôl-gwrandawiad a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a gafwyd erbyn DC3. • Rhestr gyfredol o'r CA / TP mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). 	Dydd Mawrth 20 Mehefin 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • dDCO cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (yn ôl y gofyn). • Traciwr Dogfennau'r Cais wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn) mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Datganiad o gynnydd ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n weddill a chyflwyno'r Datganiadau Tir Cyffredin a gwblhawyd ers DC3 (yn ôl y gofyn). • Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (yn ôl y gofyn). • Diweddariad ar y Drwydded Forol (yn ôl y gofyn). • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	
11	<p>Dyddiad Cau 5 (DC5) Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ExQ2 (yn ôl y gofyn). • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a gafwyd erbyn DC4, gan gynnwys unrhyw dDCO cyfredol. • Rhestr gyfredol o'r CA / TP mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • dDCO cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (yn ôl y gofyn). • Canllaw cyfredol i'r Cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP cyfredol, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn) mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Datganiad o gynnydd ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n weddill a chyflwyno'r 	<p>Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023</p>

	<p>Datganiadau Tir Cyffredin a gwblhawyd ers DC4 (yn ôl y gofyn).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (yn ôl y gofyn). • Diweddariad ar y Drwydded Forol (yn ôl y gofyn). • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	
13	<p>Dyddiad Cau 6 (DC6) Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a gafwyd erbyn DC5. • Sylwadau ar ymatebion i ExQ2 (yn ôl y gofyn). • Rhestr gyfredol o'r CA / TP mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Llyfr Cyfeirio (BoR) cyfredol a Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • dDCO cyfredol mewn fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos y newidiadau a fersiwn Word (yn ôl y gofyn). • Rhestr o'r Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddaru (yn ôl y gofyn). • Traciwr Dogfennau'r Cais wedi'i ddiweddaru mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau (yn ôl y gofyn). • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP cyfredol, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn) mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Datganiad o gynnydd ar y Datganiadau Tir Cyffredin sy'n weddill a chyflwyno'r Datganiadau Tir Cyffredin a gwblhawyd ers DC5 (yn ôl y gofyn). • Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin (yn ôl y gofyn). • Diweddariad ar y Drwydded Forol (yn ôl y gofyn). • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio. 	Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023
14	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhestr o newidiadau'r Awdurdod Archwilio i'r dDCO (yn ôl y gofyn). 	Dydd Mawrth 1 Awst 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) (yn ôl y gofyn). 	
15	<p>Wythnos wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiaidau, yn ôl y gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrandawiad(au) Materion Penodol. • Gwrandawiad(au) Caffaeliad Gorfodol. • Gwrandawiad(au) Llawr Agored. • Arolygiad Safle â Chwmni. 	w/d 7 Awst 2023
16	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trydydd Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ3) (yn ôl y gofyn). 	Dydd Mawrth 15 Awst 2023
17	<p>Dyddiad Cau 7 (DC7)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a gafwyd erbyn DC6. • Ymatebion i ExQ3 (yn ôl y gofyn). • Crynodebau ysgrifenedig o'r cyflwyniadau llafar a wnaed mewn unrhyw Wrandawiaidau (yn ôl y gofyn). • Sylwadau ar y RIES (yn ôl y gofyn). • Sylwadau ar restr newidiadau arfaethedig yr Awdurdod Archwilio i'r dDCO (yn ôl y gofyn). • Datganiadau Tir Cyffredin terfynol. • Datganiad Cyffredinrwydd terfynol ar gyfer y Datganiadau Tir Cyffredin. • Rhestr derfynol o'r CA / TP mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Llyfr Cyfeirio terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau. • Datganiad o Resymau terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Traciwr NPS / Traciwr Prosbectws NPPF / Traciwr NDMP terfynol, fel sy'n berthnasol i'r Cais NSIP (yn ôl y gofyn), mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Rhestr o'r Newidiadau i'r Llyfr Cyfeirio mewn fersiwn lân a fersiwn yn dangos y newidiadau. • Traciwr Dogfennau'r Cais terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau. • Diweddariad terfynol ar y Drwydded Forol. • Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) dewisol yr Ymgeisydd yn adroddiad dilysu templed SI a chopi dilys o'r DCO. • DCO dewisol yr ymgeisydd ar ffurf Word. • Rhestr Derfynol o'r Newidiadau i'r dDCO. 	Dydd Mawrth 5 Medi 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio (yn ôl y gofyn). 	
18	<p>Dyddiad Cau 8 (DC8) Dyddiad cau i'r Awdurdod Archwilio dderbyn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar ymatebion i ExQ3 (yn ôl y gofyn). • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a gafwyd erbyn DC7. • LIRau cyfredol (yn ôl y gofyn). • Cyflwyniadau terfynol. • Unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio (yn ôl y gofyn). 	Dydd Mawrth 12 Medi 2023
19	<p>Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau'r Archwiliad o'r cais erbyn diwedd cyfnod o 6 mis.</p> <p>Sylwer y gallai'r Awdurdod Archwilio gau'r Archwiliad cyn diwedd y cyfnod o chwe mis os yw'n fodlon y trafodwyd ac yr aethpwyd i'r afael â'r holl faterion perthnasol.</p>	Dydd Mercher 20 Medi 2023

Sylwer: Os bydd angen mwy o rowndiau o gwestiynau, bydd yr Awdurdod Archwilio'n diwygio'r amserlen trwy lythyr o dan Reol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

Amseroedd cyflwyno ar gyfer Dyddiadau Cau

Yr amser i gyflwyno dogfennau ar unrhyw Ddyddiad Cau ar yr amserlen yw 23:59 ar y Dyddiad Cau perthnasol, oni bai bod yr Awdurdod Archwilio yn rhoi cyfarwyddyd gwahanol.

Dyddiadau cyhoeddi

Bydd yr holl wybodaeth a geir yn cael ei chyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Dyddiadau Cau ar gyfer cyflwyniadau.

Agendâu Gwrandawiadau

Sylwer y bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi agenda lefel uchel ar gyfer Gwrandawiadau Materion Penodol a Gwrandawiadau Caffaeliad Gorfodol, ochr yn ochr â'r hysbysiad o'r gwrandawriad, er mwyn helpu llywio'ch penderfyniad ynghylch

p'un a ydych am gofrestru i gymryd rhan ai peidio. Bydd agenda ddrafft fanwl ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Fodd bynnag, gallai'r union agenda newid ar ddiwrnod pob gwrandawriad, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio. Efallai na chaiff agendâu eu cyhoeddi ar gyfer Gwrandawiadau Llawr Agored.

Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Lle bydd ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gyda'r cais, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn ystod yr Archwiliad. Mae'r RIES yn gyfrif ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel awdurdod cymwys, i ymgymryd â'i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydyw. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwahodd sylwadau ar y RIES a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol. Gall yr Awdurdod Archwilio godi cwestiynau yn y RIES hefyd i gadarnhau neu egluro materion heb eu datrys.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar yr ymgynghoriad ar y RIES i fodloni ei rwymedigaethau dan Reoliad 63(3) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a / neu Reoliad 28 Rheoliadau Morol Alltraeth.

Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi gwneud y Penderfyniadau Gweithdrefnol canlynol:

1. Datganiadau Tir Cyffredin (DTCau) a Datganiadau Cyffredinrwydd DTCau

O ran rhai o'r Prif Faterion a nodwyd yn **Atodiad C** i'r llythyr hwn, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe byddai DTCau yn cael eu paratoi rhwng yr Ymgeisydd a Phartion â Buddiant penodol. Felly, mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn **Atodiad D** i'r llythyr hwn yn pennu Dyddiad Cau 1 i gyflwyno **DTCau**.

Nod DTC yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod Archwilio a'r holl bartion eraill trwy nodi lle mae cytundeb a lle mae gwahaniaethau yn gynnar ym mhroses yr Archwiliad. Dylai gynnig ffocws ac arbed amser drwy nodi materion nad oes anghydfod yn eu cylch neu lle nad oes angen iddynt fod yn destun tystiolaeth bellach. Gall ddatgan yn ddefnyddiol hefyd lle a pham y gallai fod anghytundeb ynghylch y dehongliad o'r wybodaeth a'i pherthnasedd. Oni nodir neu y cytunir fel arall, dylai'r DTC gael ei gytuno rhwng yr Ymgeisydd â'r Parti neu Bartion â Buddiant perthnasol, a'i gyflwyno **gan yr Ymgeisydd**.

Gofynnir am i DTCau gael eu paratoi rhwng yr Ymgeisydd â:

- 1) 2 Sisters Food Group.
- 2) Cadent Gas Limited.
- 3) CF Fertilisers UK Limited.
- 4) Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer.
- 5) Asiantaeth yr Amgylchedd.
- 6) Essar Oil (UK) Limited.
- 7) Exolum Group.
- 8) Cyngor Sir y Fflint.
- 9) Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- 10) Historic England.
- 11) Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.
- 12) National Grid Electricity Transmission Plc.
- 13) National Grid Gas Plc.
- 14) National Highways Limited, gan gynnwys Historical Rail Estate (rhan o National Highways).
- 15) Natural England.
- 16) Cyfoeth Naturiol Cymru
- 17) Network Rail Infrastructure Limited.
- 18) Peel NRE.
- 19) Royal Mail Group Limited.
- 20) SP Energy Networks.
- 21) Yr Ymddiriedaeth Camlesi ac Afonydd.
- 22) Yr Awdurdod Glo.
- 23) The Woodland Trust.

- 24) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.
- 25) United Utilities Water Ltd.
- 26) Llywodraeth Cymru.
- 27) Dŵr Cymru.

Dylai'r DTC gwmpasu'r pynciau canlynol, lle bo hynny'n berthnasol:

- Methodoleg ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylchedd, gan gynnwys asesiad o'r effeithiau cronus;
- Dulliau casglu data;
- Data gwaelodlin;
- Dadansoddi data / ystadegau, dull modelu a chyflwyno'r canlyniadau (gan gynnwys methodolegau rhagamcanu);
- Mynegiant llawn o farnau a rhagdybiaethau arbenigol;
- Nodi nodweddion perthnasol a'u sensitifrwydd a meintioli'r effaith bosibl;
- Yr effeithiau tebygol (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar nodweddion o ddiddordeb arbennig ar safleoedd sy'n wedi'u dynodi neu eu nodi at unrhyw ddiben yn ymwneud â chadwraeth natur; a
- Mesurau lliniaru ymarferol a chyflawnadwy a'r dull ar gyfer sicrhau'r mesurau lliniaru hyn yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Mae cynnwys awgrymedig y DTC a restrir uchod yn fynegol ac nid yw'n eich atal rhag cynnwys materion eraill yr ystyrir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol. Dylai pob un o'r DTCau a restrir uchod gynnwys yr Erthyglau a'r Gofynion yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft. Dylai unrhyw Barti â Buddiant sy'n gofyn i Erthygl neu Ofyniad gael ei (h)aileirio ddarparu ffurf y geiriau y gofynnir amdani yn y DTC.

Lle na all y partïon gytuno ar DTC penodol erbyn **Dyddiau Cau 1**, neu os oes angen i safbwynt unrhyw awdurdod lleol gael ei gymeradwyo ar lefel uwch, gofynnir i'r Ymgeisydd gyflwyno fersiynau drafft o'r DTC hwnnw heb fod yn hwyrach na'r un Dyddiad Cau (Dyddiad Cau 1). Yna, dylid cadarnhau safbwynt y Partïon â Buddiant perthnasol yn ystod yr Archwiliad. Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn darparu ar gyfer cyflwyno DTCau cyfredol ar Ddyddiadau Cau amrywiol, gyda'r fersiynau terfynol erbyn **Dyddiad Cau 7**.

Bydd cynnwys y DTCau yn helpu llywio'r Awdurdod Archwilio ynghylch yr angen i gynnal unrhyw Wrandawriad Materion Penodol yn ystod yr Archwiliad ac yn galluogi'r Awdurdod Archwilio a'r Ymgeisydd i roi rhybudd o'r gwrandawriadau hynny o leiaf 21 niwrnod cyn eu cynnal.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu Datganiad Cyffredinrwydd ar gyfer Datganiadau Tir Cyffredin ar Ddyddiad Cau 2, 3, 4, 5 a 6 i roi diweddariad ar gynnydd DTCau a throsolwg o'r meysydd lle mae cytundeb ac anghydfod rhwng y Partïon â Buddiant. Gofynnir am fersiwn derfynol o'r ddogfen hon ar Ddyddiad Cau 7.

2. Arolygiad Safle â Chwmni – lleoliadau awgrymedig

Mae Amserlen Ddrafft yr Archwiliad yn **Atodiad D** i'r llythyr hwn yn cynnwys cyfnod pan ellid cynnal Arolygiad Safle â Chwmni (ASI). Byddai'r Awdurdod Archwilio yn ceisio cynnal yr Arolygiad Safle â Chwmni (yn ôl y gofyn) **ddydd lau 9 Mehefin 2023**.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i Bartïon â Buddiant gyflwyno lleoliadau awgrymedig i'r Awdurdod Archwilio ymweld â nhw fel rhan o Arolygiad Safle â Chwmni erbyn **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A** (dydd lau 9 Mawrth 2023). Rhaid i'r cais gynnwys:

- Gwybodaeth ddigonol o ddod o hyd i'r lleoliad;
- y materion i'w harsylwi yn y lleoliad;
- gwybodaeth am b'un a ellir cyrraedd y safle trwy dir cyhoeddus; a'r
- rheswm dros awgrymu'r lleoliad hwnnw.

Dylai Partïon â Buddiant fod yn ymwybodol nad yw Arolygiadau Safle â Chwmni yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar i'r Awdurdod Archwilio am y Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Archwilio wahodd cyfranogwyr i nodi nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

Gofynnir i'r Ymgeisydd baratoi amserlen ddrafft ar gyfer yr Arolygiad Safle â Chwmni a'i chyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 1** (dydd Llun 17 Ebrill 2023). Dylai gynnwys:

- Lleoliadau perthnasol y cyfeiriwyd atynt yn y Sylwadau Perthnasol a dderbyniwyd;
- unrhyw lleoliadau eraill lle mae'r Ymgeisydd wedi rhagamcanu y bydd effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol; a'r
- lleoliadau a awgrymwyd gan Bartïon â Buddiant a gyflwynwyd erbyn **Dyddiad Cau 1**.

Rhaid i sylwadau gan Bartïon â Buddiant am amserlen ddrafft yr Ymgeisydd gael eu cyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 2** (dydd Mawrth 2 Mai 2023).

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried pob lleoliad awgrymedig ar y safle, gan gynnwys y rhai a ddarperir yn amserlen ddrafft yr Ymgeisydd, i benderfynu a ellid ei weld o dir cyhoeddus heb gwmni neu os oes angen ei weld â chwmni. Bydd yr Awdurdod Archwilio hefyd yn ystyried a fyddai'n briodol gwneud trefniadau i ddarparu mynediad yn unig at safleoedd penodol fel y gellid eu harolygu fel rhan o Arolygiad Safle Digwmni ar y sail bod angen mynediad.

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi ei amserlen derfynol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad yr Arolygiad Safle â Chwmni.

3. Adroddiadau ar yr Effaith Leol

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn am Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIRau) gan Gyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer, Cyngor Sir y Fflint ac yn croesawu LIRau gan unrhyw Gyngor neu Awdurdod Lleol arall sy'n dymuno cyflwyno un. Rhaid i bob LIR gael ei gyflwyno i'r Archwiliad heb fod yn hwyrach na Dyddiad Cau 1 (dydd Llun 17 Ebrill 2023).

4. Ceisiadau am Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol

Dylai Unigolion yr Effeithir Arnynt sydd am gael eu clywed mewn Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol (CAH) gyflwyno eu ceisiadau i'r Arolygiaeth erbyn **Dyddiad Cau 1** (dydd Llun 17 Ebrill 2023) yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad sydd wedi'i hamlinellu yn **Atodiad D**. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn cael un neu fwy o geisiadau am Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol gan unigolion yr effeithir arnynt erbyn y dyddiad a bennir, byddwn yn cynnal un neu fwy o Wrandawriadau ar y dyddiadau perthnasol yn Amserlen yr Archwiliad (**Atodiad D**). Gallai'r Awdurdod Archwilio ddewis cynnal Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol hyd yn oed os na fydd yn cael unrhyw geisiadau. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cynnal un neu fwy o Wrandawriadau Caffaeliad Gorfodol, bydd yn rhoi digon o rybudd i bob parti, yn unol â Rheol 13 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

5. Ceisiadau am Wrandawriad Llawr Agored

Dylai Partïon â Buddiant sydd am gael eu clywed mewn Gwrandawriad Llawr Agored (OFH) gyflwyno eu cais i'r Arolygiaeth yn ysgrifenedig erbyn **Dyddiad Cau 1**, dydd Llun 17 Ebrill 2023, yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad sydd wedi'i hamlinellu yn **Atodiad D**. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn cael un neu fwy o geisiadau am Wrandawriad Llawr Agored, byddwn yn cynnal Gwrandawriad ar y dyddiadau perthnasol yn Amserlen yr Archwiliad, a fydd yn cael eu cadarnhau gan yr Awdurdod Archwilio yn ei lythyr Rheol 8 yn cadarnhau'r amserlen. Gallai'r Awdurdod Archwilio ddewis cynnal un neu fwy o Wrandawriad Llawr Agored hyd yn oed os na fydd yn cael unrhyw geisiadau. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cynnal Gwrandawriad Llawr Agored, bydd yn rhoi digon o rybudd i bob parti, yn unol â Rheol 13 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

6. Ymatebion i Sylwadau Perthnasol

Gofynnir am ymatebion i Sylwadau Perthnasol a dderbynnir i'r Archwiliad [RR-001] i [RR-083] erbyn **Dyddiad Cau 1** (dydd Llun 17 Ebrill 2023), fel yr amlinellir yn Amserlen Ddrafft yr Archwiliad (Atodiad D).

Gofynnir i'r Ymgeisydd ymateb i'r materion a godir ym mhob un o'r Sylwadau Perthnasol yn unigol. Gall yr Ymgeisydd roi ymatebion cryno wedi'u trefnu yn ôl pynciau a themâu hefyd, wrth iddynt ddod i'r amlwg ar draws yr holl Sylwadau Perthnasol, os yw'n dymuno gwneud hynny.

Gall Partïon â Buddiant ymateb i'r Sylwadau Perthnasol neu roi sylwadau arnynt hefyd, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

7. Rhestr o'r newidiadau i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn, pa bryd bynnag y gwneir newidiadau i gynnwys y dDCO, bod yr Ymgeisydd yn darparu fersiwn lân o'r ddogfen honno a fersiwn sy'n dangos y newidiadau, ynghyd â rhestr dabledig o'r newidiadau yn amlinellu beth yw'r newidiadau a'r rhesymau sy'n sail iddynt.

8. Diweddariadau rheolaidd i ddogfennau yn ystod yr Archwiliad

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn, pa bryd bynnag y gwneir newidiadau i gynnwys y dogfennau canlynol, y cânt eu cyflwyno mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos y newidiadau.

Rhestr ddogfennau:

- Traciwr Dogfennau'r Cais.
- Memorandwm Esboniadol.
- Datganiad o Resymau.
- Rhestr o Drafodaethau Buddiannau Tir.
- Datganiad Cyllid.
- Llyfr Cyfeirio.

9. Traciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol a diweddariadau rheolaidd yn ymwneud â phrosbectws drafft NPPF (Rhagfyr 2022) a dull arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Polisiâu Rheoli Datblygu Cenedlaethol

Cyhoeddwyd Datganiadau Polisi Cenedlaethol Drafft ar gyfer Ynni ym mis Medi 2021 ac mae'r Awdurdod Archwilio'n nodi y cyfeirir atynt drwyddi draw yn y dogfennau a gyflwynwyd â'r Cais NSIP. Wrth i'r dogfennau hyn fynd drwy'r broses ymgynghori a dynodi, mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno traciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n amlinellu'r newidiadau/addasiadau i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft hyn wrth iddynt symud tuag at eu dynodi, fel mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i'w Gais NSIP.

Yn ogystal, byddai'r Awdurdod Archwilio yn gofyn, lle y bo'n berthnasol, i'r Ymgeisydd ddarparu diweddariadau yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar brosbectws drafft NPPF (Rhagfyr 2022) a dull arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Polisiâu Rheoli Datblygu Cenedlaethol, fel mae'r Ymgeisydd yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r rhan o'r NSIP arfaethedig sydd wedi'i lleoli yn Lloegr, wrth iddynt fynd trwy'r broses ymgynghori tuag at eu cyhoeddi/mabwysiadu'n ffurfiol.

Dylid darparu'r diweddariadau hyn erbyn pob Dyddiad Cau, oni bai nad oes unrhyw beth perthnasol i roi diweddariad arno. Os felly, byddai'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd gadarnhau nad oes unrhyw ddiweddariad yn

cael ei roi mewn llythyr esboniadol yn datgan pam nad yw o'r farn bod angen cyflwyno'r cyfryw ddogfennau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r canlynol:

- A) y Datganiadau Polisi Drafft (dogfen Traciwr NPSau); a/neu
- B) ddiweddariad ar brosbectws drafft NPPF (Rhagfyr 2022); a/neu
- C) ddull arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer Polisiâu Rheoli Datblygu Cenedlaethol.

10. Cyflwyniadau terfynol

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd a phob Parti â Buddiant gyflwyno eu cyflwyniadau terfynol heb fod yn hwyrach na **Dyddiad Cau 8** (dydd Mawrth 12 Medi 2023), yn manylu ar safbwyntiau terfynol yr ymatebwyr ar eu prif faterion ar ddiwedd yr Archwiliad.

11. Cyflwyniadau Ychwanegol

Yn ogystal â'r dogfennau a gyflwynwyd erbyn **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A**, mae'r Awdurdod Archwilio wedi arfer ei ddisgresiwn ac wedi gwneud Penderfyniad Gweithdrefnol i dderbyn y Cyflwyniadau Ychwanegol canlynol:

Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, ym mis Hydref 2023, cyflwynodd yr Ymgeisydd ei ymateb i gyngor Adran 51 yr Arolygiaeth Gynllunio a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2021 [PD-003] (Cymraeg) a [PD-004] (Saesneg). Roedd ymateb yr Ymgeisydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar ffurf llythyr esboniadol [AS-001], Traciwr Dogfennau'r Cais [AS-002], Ffurflen Gais [AS-003], ac Atodiad 18 wedi'i gywiro, a oedd yn cynnwys 3 rhan (Rhan 1 [AS-004], Rhan 2 [AS-005] a Rhan 3 [AS-006]). Gwnaeth yr Awdurdod Archwilio Benderfyniad Gweithdrefnol ar ôl ei benodi ar 17 Ionawr 2023 i dderbyn y 'Cyflwyniadau Ychwanegol' hyn.

Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad

Mae dogfennau'r cais a'r Sylwadau Perthnasol ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#).

Bydd yr holl ddogfennau pellach a gyflwynir yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cyhoeddi hefyd dan y [tab Dogfennau](#) ar dudalen we'r prosiect.

Llyfrgell yr Archwiliad

Er mwyn hwyluso'r llywio, ewch i [Llyfrgell yr Archwiliad](#) y gellir mynd ati drwy glicio'r botwm glas o dan y tab Dogfennau. Caiff Llyfrgell yr Archwiliad ei diweddarau'n rheolaidd yn ystod yr Archwiliad.

Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cofnodi ac yn cynnig hyperddolenni at:

- bob un o ddogfennau'r cais;
- pob un o'r sylwadau a wnaed i'r Archwiliad; a
- phob Penderfyniad Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio.

Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob dogfen a fydd wedi'i bennu ar hyd yr Archwiliad. **Dylech ddyfynnu'r rhif cyfeirnod unigryw o Lyfrgell yr Archwiliad wrth gyfeirio at unrhyw un o Ddogfennau'r Archwiliad mewn unrhyw gyflwyniad a wnewch yn y dyfodol.**

Lleoliadau adneuo electronig

Gellir gweld dogfennau'n electronig, yn rhad ac am ddim, yn y lleoliadau adneuo electronig sydd wedi'u rhestru yn y tabl isod. Sylwer y bydd angen i chi ddod rhyw fath o ddull adnabod gyda chi a chofrestru fel aelod/aelod o'r llyfrgell i ddefnyddio cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn.

Gallai'r oriau agor neu argaeledd technoleg gwybodaeth a nodir yn y tabl isod fod yn destun newidiadau neu gyfyngiadau i fynd i'r afael â gofynion iechyd y cyhoedd. O ystyried bod y dogfennau ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ac effaith cyfyngiadau iechyd y cyhoedd, dylech ystyried yn ofalus a oes angen i chi fynd i'r lleoliadau hyn. Dylech wirio beth yw'r amgylchiadau cyfredol â'r lleoliadau perthnasol cyn i chi fynd yno.

Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
<p>Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer</p>	<p>Llyfrgell Ellesmere Port Civic Way, Ellesmere Port, CH65 0BG Ffôn: 0151 337 4684</p>	<p>Dydd Llun: 9am – 7pm Dydd Mawrth: 9am-5pm Dydd Mercher: 9am -5pm Dydd Iau: 9am - 7pm Dydd Gwener: 9am -7pm Dydd Sadwrn: 9am -1pm Dydd Sul: Ar gau</p>	<p>Y costau argraffu yw £0.20 fesul dalen A4 mewn du a gwyn neu £0.80 mewn lliw. Nid yw argraffu A3 ar gael. Y costau llungopïo yw £0.10 fesul dalen A4 ac £0.20 fesul dalen A3 mewn du a gwyn, neu £1.00 fesul dalen A4 a £1.50 fesul dalen A3 (lle y bo ar gael) mewn lliw.</p>
<p>Aura Cymru</p>	<p>Llyfrgell y Fflint Heol yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AP Ffôn: 01352 703737</p>	<p>Dydd Llun: 9.30am – 5pm Dydd Mawrth: 9.30am-7pm Dydd Mercher: 9.30am-5pm Dydd Iau: 9.30am - 7pm Dydd Gwener: 9.30am – 5pm Dydd Sadwrn: 9.30am-12pm Dydd Sul: Ar gau</p>	<p>Y costau ar gyfer argraffu mewn du a gwyn yw 30c ar gyfer A4 a 50c ar gyfer A3.</p>
<p>Cyngor Sir Ddinbych</p>	<p>Llyfrgell Prestatyn 21 Rhodfa'r Brenin, Prestatyn, LL19 9AA</p>	<p>Dydd Llun: 9.30am - 6pm Dydd Mawrth: 9.30am-5pm</p>	<p>Llungopïo A4 du a gwyn 10c, lliw £1</p>

Atodiad F

	Ffôn: 01745 854841	<p>Dydd Mercher: 9.30-1pm</p> <p>Dydd Iau: 9.30am-5pm</p> <p>Dydd Gwener: 9.30am-5pm</p> <p>Dydd Sadwrn: 9.30am-12.30pm</p> <p>Dydd Sul: Ar gau</p>	<p>A3 du a gwyn 15c, lliw £1.50</p> <p>Argraffu A4 du a gwyn 20c, lliw 60c A3 du a gwyn 40c, lliw £1.20</p>
